# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Serfigol Cymru 2020-21



Cyhoeddiad Ystadegau Swyddogol Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

**Diogelu iechyd** — darparu gwybodaeth a chyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

**Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig** — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

**Microbioleg** — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

**Diogelu** — darparu arbenigedd a chyngor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

**Sgrinio** — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

**Gwybodaeth iechyd** — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

**Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG** — darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

**Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol** — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

**Gwella iechyd** — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

## Rhagor o wybodaeth


| | |
|---|---|
| Gwefan: | icc.gig.cymru |
| E-bost: | ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk |
| Twitter: | @IechydCyhoeddus |
| Facebook: | facebook.com/iechydcyhoedduscymru |

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Sgrinio Serfigol Cymru ar gyfer y flwyddyn o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021.

**Manylion Cyhoeddi:**

**Teitl:** Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Serfigol Cymru 2020-21

**Dyddiad:** cyhoeddwyd Awst 2024

**ISBN:** 978-1-83766-440-5

**I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn a rhoi adborth arno cysylltwch â:**

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405
E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk

**Datganiad Sicrhau Ansawdd**

Mae cofnodion sgrinio data yn cael eu diweddaru’n barhaus. Mae’r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru’n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi’i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy’n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data, er enghraifft data practis meddyg teulu, ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data, er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai’r darllenydd fod yn ymwybodol bod y data yn cael eu diweddaru’n barhaus a gall fod mân addasiadau i’r rhifau a ddyfynnir yn y ddogfen hon o’r naill flwyddyn i’r llall yn sgil diweddaru’r data. Wrth ymdrin â data o ardaloedd daearyddol bach, weithiau rydym yn atal niferoedd sy'n is na phump lle mae'n bosibl bod y data'n sensitif.

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod ei fod yn gywir ac nad yw’n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun

camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae’r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a’r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru This document is also available in English.

## Cynnwys

**1 CYFLWYNIAD ........ 8**
1.1 Negeseuon allweddol i'r cyhoedd ........ 8
1.2 Cyflawni'r rhaglen ........ 9
1.3 Llwybr sgrinio ........ 9

**2 PENAWDAU YSTADEGAU 2020-21 ........ 10**

**3 DATA ........ 12**
3.1 Cwmpas ........ 12
3.2 Unigolion a wahoddwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd ........ 15
3.3 Unigolion a brofwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd ........ 16
3.4 Amseroedd dychwelyd canlyniadau sampl sgrinio yn ôl bwrdd iechyd ........ 18
3.5 Samplau a gofnodwyd yn ôl labordy sgrinio serfigol ........ 20
3.6 Gweithgarwch colposgopi ........ 26

**4 ARCHWILIAD O GANSER CEG Y GROTH YNG NGHYMRU 2019-20 ........ 34**
4.1 Oedran diagnosis yr holl ganserau ceg y groth a nodwyd yng Nghymru (a gafodd eu canfod drwy sgrinio a heb sgrinio) ........ 35
4.2 Math o ganser ........ 35
4.3 Cam y canser ........ 36
4.4 Statws canfod drwy sgrinio ........ 37

**5 TERMINOLEG ........ 41**

**6 TÎM CYNHYRCHU ........ 44**

## Tablau a graffiau

Tabl 1a: Cwmpas sgrinio serfigol sy’n addas i’r oedran yn ôl grŵp oedran 122

Graff 1a1: Cwmpas sgrinio serfigol sy’n addas i’r oedran yn ôl grŵp oedran ........133

Tabl 1b: Cwmpas sgrinio serfigol (unigolion 25-64 oed) yn ôl bwrdd iechyd preswyl ........133

Graff 1b: Cwmpas sgrinio serfigol cyfunol o ran y grŵp oedran targed (unigolion 25-64 oed) yn ôl bwrdd iechyd ........144

Tabl 2: Unigolion a wahoddwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd ........155

Tabl 3: Unigolion a sgriniwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd ........166

Graff 3: Nifer yr unigolion (25-64 oed) a wahoddwyd a'u sgrinio bob blwyddyn ....177

Tabl 4: Yr amser o'r dyddiad y cymerwyd y sampl hyd at roi llythyr canlyniad, yn ôl bwrdd iechyd ....188

Graff 4: Yr amser o'r dyddiad y cymerwyd y sampl hyd at roi llythyr canlyniad, yn ôl bwrdd iechyd ....199

Tabl 5a: Nifer y samplau sgrinio serfigol a gofnodwyd yn ôl ffynhonnell y prawf .... 20

Tabl 5b1: Nifer y samplau sgrinio serfigol a gofnodwyd yn ôl bwrdd iechyd preswyl a ffynhonnell y prawf .... 20

Tabl 5b2: Canran y samplau sgrinio serfigol a gymerwyd ym mhob bwrdd iechyd preswyl yn ôl ffynhonnell y prawf .... 21

Tabl 5c1: Samplau sytoleg annigonol a gofnodwyd yn ôl labordy sgrinio serfigol .... 21

Tabl 5c2: Samplau sytoleg gradd uchel a gofnodwyd yn ôl labordy sgrinio serfigol ....222

Tabl 5d: Nifer y samplau digonol a gofnodwyd yn ôl canlyniad y prawf a grŵp oedran ....222

Tabl 5e: Nifer y samplau digonol a gofnodwyd gyda phrawf HPV .... 24

Tabl 5f: Canlyniad i unigolion a atgyfeiriwyd yn ystod mis Ebrill 2019-Mawrth 2020 yn dilyn canlyniad annigonol, negatif neu radd isel ....244

Tabl 5g: Canlyniad i unigolion a atgyfeiriwyd yn ystod mis Ebrill 2019-Mawrth 2020 ar ôl canlyniad sytoleg gradd uchel ....244

Tabl 5h: Canlyniad i unigolion a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol yn ystod mis Ebrill 2019-Mawrth 2020 ....255

Tabl 5i: Amseroedd dychwelyd canlyniadau ar gyfer labordy sgrinio serfigol, o'r dyddiad y derbyniwyd y sampl, hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd y canlyniad am y tro cyntaf....255

Tabl 6a: Nifer yr atgyfeiriadau colposgopi yn ôl ffynhonnell yr atgyfeiriad a'r clinig colposgopi....266

Tabl 6b: Nifer y cleifion newydd a welwyd mewn clinigau colposgopi yn ôl canlyniad prawf atgyfeirio ....277

Tabl 6c: Amseroedd aros yn ôl bwrdd iechyd a'r math o atgyfeirio .... 29

Graff 6c1: Canran yr holl atgyfeiriadau newydd y cynigiwyd apwyntiad iddynt o fewn wyth wythnos yn ôl bwrdd iechyd (ac eithrio oedi a achoswyd gan gleifion) .......... 30

Graff 6c2: Canran yr atgyfeiriadau gradd uchel y cynigiwyd apwyntiad iddynt o fewn pedair wythnos yn ôl bwrdd iechyd (ac eithrio oedi a achoswyd gan gleifion) .......... 311

Tabl 6d: Cyfanswm yr apwyntiadau yr aed iddynt yn ôl math yr ymweliad a'r bwrdd iechyd .......... 322

Tabl 6e: Cleifion newydd a welwyd yn ôl y math o atgyfeiriad a chanlyniad gwaethaf histoleg .......... 333

Tabl 6f: Cleifion newydd a welwyd yn ôl bwrdd iechyd a chanlyniad gwaethaf histoleg .......... 333

Graff 7a: Nifer y Canserau Ceg y Groth yn ôl grŵp oedran .......... 35

Graff 7b: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl math ac oedran pan gafwyd y diagnosis .......... 36

Graff 7c: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl cam ac oedran pan gafwyd y diagnosis .......... 37

Graff 7d: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl cam a statws canfod drwy sgrinio .......... 388

Graff 7e: Nifer y canserau ceg y groth yn ôl oedran a statws canfod drwy sgrinio .......... 399

Graff 7f: Canserau heb eu canfod drwy sgrinio yn ôl cam a hanes sgrinio .. 40

# 1 Cyflwyniad

Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn gyfrifol am raglen sgrinio serfigol y GIG yng Nghymru. Nod y rhaglen sgrinio serfigol yw lleihau nifer yr achosion o ganser ceg y groth ymledol a'r morbidrwydd a'r marwolaethau a welir o ganlyniad iddynt.

Casglwyd y wybodaeth yn yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

1. System galw ac ailalw NHAIS (Gwasanaethau Cymwysiadau a Seilwaith Iechyd Cenedlaethol) a ddefnyddir gan yr Adrannau Gweinyddu Sgrinio Serfigol.
2. System LIMS genedlaethol (WLIMS) sy'n cefnogi Meddygaeth Labordy yng Nghymru.
3. Canisc – System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru sy'n gronfa ddata genedlaethol ac sy'n cofnodi data clinigol a gweinyddol o wasanaethau colposgopi ar draws yr holl fyrddau iechyd.

Ceir esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen yn adran 5 (Diffiniadau).

**Pandemig COVID-19**

Ym mis Mawrth 2020, gwnaed yr argymhelliad anodd i oedi rhai o'r rhaglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys Sgrinio Serfigol, am gyfnod o bum mis, mewn ymateb i bandemig COVID-19. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd y rhaglen sgrinio yn parhau i adfer gwasanaeth arferol yn dilyn yr oedi hwn.

Ceir rhagor o wybodaeth am effaith pandemig COVID-19 ar dudalen 17 o Adroddiad ar Effaith Covid-19 ar y Rhaglenni Sgrinio Cenedlaethol yng Nghymru Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru: Mis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021: Adroddiad ar effaith COVID

## 1.1 Negeseuon allweddol i'r cyhoedd

- Mae sgrinio serfigol yn ceisio atal canser rhag datblygu yng ngheg y groth drwy nodi'r rhai sy'n wynebu risg uwch a chanfod newidiadau i'r celloedd yn gynnar fel y gellir eu trin yn haws;
- Mae sgrinio serfigol yn chwilio am bresenoldeb y mathau mwyaf cyffredin o Feirws Papiloma Dynol (hrHPV) risg uchel sy'n gyfrifol am 99.7% o ganserau ceg y groth;

- Mae'r rhan fwyaf o heintiau hrHPV yn rhai dros dro, ond os ydynt yn parhau gallant achosi newidiadau annormal i'r celloedd a all ddatblygu'n ganser ceg y groth yn y pen draw os na chânt eu trin;
- Gwahoddir unigolion sy'n 25 oed ac yn hŷn i gael eu sgrinio bob tair blynedd. Gwahoddir unigolion 50 i 64 oed bob pum mlynedd (sylwer bod y bwlch sgrinio a nodir ar gyfer y rhai 25 – 49 oed yn gywir ar gyfer y cyfnod amser a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. O 01/01/2022 y bwlch sgrinio ar gyfer y grŵp oedran hwn yw pum mlynedd ar gyfer y rhai sy'n profi'n negatif am HPV);
- Mae prawf sgrinio serfigol yn brawf am ddim drwy'r GIG a gynhelir ym meddygfa eich meddyg teulu neu mewn rhai clinigau iechyd rhywiol;
- Mae'r prawf yn gyflym ac yn syml ac ni ddylai fod yn boenus, ond gall fod yn anghyfforddus i rai unigolion;
- Mae tystiolaeth yn dangos y bydd mynychu sgrinio rheolaidd yn atal saith o bob 10 canser. Dewis unigol yw cymryd rhan mewn sgrinio serfigol. Gofynnir i'r rhai a wahoddir ddarllen y daflen wybodaeth a ddarperir yn ofalus i'w helpu i wneud eu penderfyniad.

## 1.2 Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen sgrinio serfigol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o brofion sgrinio serfigol yn cael eu cynnal gan weithiwr iechyd cofrestredig mewn gofal sylfaenol neu mewn clinig cymunedol neu glinig iechyd rhywiol. Cynhelir nifer bach o brofion mewn gofal eilaidd, mewn clinigau colposgopi neu glinigau gynaecoleg.

Mae'r rhaglen sgrinio serfigol yn rhaglen Cymru Gyfan, gyda thîm llywodraethu canolog a thair canolfan ranbarthol sy'n gyfrifol am reoli gweithredol a sicrhau ansawdd y rhaglen sgrinio yn eu hardal: Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.

## 1.3 Llwybr sgrinio

Gwahoddir unigolion cymwys yng Nghymru i gael sgrinio serfigol o 24 oed ac 8 mis, gyda'r rhai hyd at 49 oed yn cael gwahoddiad am sgrinio rheolaidd bob tair blynedd, a'r rhai 50 – 64 oed bob pum mlynedd.

Ym mis Medi 2018, dechreuwyd profi pob sampl am yr isdeipiau mwyaf cyffredin o HPV risg uchel (hrHPV) fel y prawf sgrinio sylfaenol. Erbyn 1 Hydref 2018, roedd Cymru wedi symud yn llawn i sgrinio sylfaenol hrHPV. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i weithredu hrHPV yn llawn fel y prawf sgrinio sylfaenol.

Mae'r holl samplau yn cael eu profi yn labordy Parc Magden Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Llantrisant. Os nad oes hrHPV wedi'i ganfod mewn sampl, cyhoeddir canlyniad 'negatif' gan y labordy. Nid yw'r celloedd yn y sampl yn cael eu harchwilio.

Os canfyddir hrHPV, gwneir sleid ac archwilir y celloedd o dan ficrosgop gan sgrinwyr labordy a gwyddonwyr biofeddygol. Os oes unrhyw newidiadau i'r celloedd, anfonir y sleid ar gyfer adroddiadau meddygol gan un o rwydwaith ffurfiol o Batholegwyr Ymgynghorol neu Wyddonwyr Biofeddygol Ymgynghorol ledled Cymru.

Mae pobl gymwys yn cael eu nodi drwy gofrestriadau meddygon teulu ac anfonir llythyr atynt yn eu gwahodd i drefnu apwyntiad ar gyfer sgrinio serfigol. Dim ond y rhai sydd wedi cofrestru fel 'menyw' gan eu meddyg teulu y gall cronfa ddata sgrinio serfigol NHAIS eu nodi a'u gwahodd. Fodd bynnag, mae hawl gan unrhyw un sydd â cheg y groth o fewn yr ystod oedran sgrinio fynd i gael sgrinio serfigol. Mae taflen sy'n esbonio'r sgrinio yn cael ei chynnwys gyda'r llythyr gwahoddiad. Anfonir llythyr atgoffa os ymddengys nad ydynt wedi mynd i gael eu sgrinio o fewn amser penodol. Cymerir manylion demograffig o gofrestriadau meddyg teulu ar y system NHAIS ac mae'n bwysig bod pobl yn sicrhau bod eu henw a'u cyfeiriad wedi'u diweddaru gyda'u meddyg teulu.

Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen a chopïau o adroddiadau ystadegol blaenorol yn www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk

## 2 Penawdau Ystadegau 2020-21

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gweithgarwch o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021 yn gynwysedig.

- Ar 31 Mawrth 2021, roedd y cwmpas sgrinio yn 69.5% ledled Cymru, ac yn fwy na 67% ym mhob rhanbarth bwrdd iechyd. Mae'r ffigur hwn yn cyfuno cyfran y rhai 25-49 oed a sgriniwyd yn y 3.5 mlynedd blaenorol, a chyfran y rhai 50-64 oed a sgriniwyd yn y 5.5 mlynedd blaenorol. Gelwir hyn yn gwmpas sy'n 'briodol i oedran'.

- Yn 2020-21, cafodd 204,406 o unigolion 25-64 oed eu gwahodd i gael eu sgrinio.

- Cafodd 123,017 o unigolion eu sgrinio yn 2020-21 (gan gynnwys y rhai â chanlyniadau annigonol). Mae hyn yn cynnwys unigolion a gafodd eu sgrinio yn ystod y flwyddyn 2020-21 ac nid yw'n adlewyrchu'r holl unigolion a gafodd eu gwahodd yn y flwyddyn honno.

- Archwiliodd labordai 117,504 o samplau gan drigolion Cymru yn 2020-21.
- Mewn 0.4% o brofion roedd y canlyniad terfynol yn ‘annigonol’. Mae ‘annigonol’ yn golygu nad oedd ansawdd y sampl yn ddigonol ar gyfer cynhyrchu naill ai canlyniad HPV neu sytoleg, fel y bo'n briodol.
- Mae'r Gwerth Rhagfynegol Positif (PPV) yn cael ei ddefnyddio i gyfateb sytoleg gradd uchel â histoleg gradd uchel. Ar gyfer 2020-21, mae'r gwerth rhagfynegol positif (PPV) ar gyfer Cymru yn parhau o fewn yr ystod (83.1 – 89.3%) ar 85.1%.
- Cafodd 6,622 o gleifion newydd eu gweld mewn clinigau colposgopi yng Nghymru yn 2020-21, gyda 64.6% wedi'u hatgyfeirio'n uniongyrchol gan Sgrinio Serfigol Cymru a 35.4% am resymau clinigol, e.e. symptomau neu geg y groth a oedd yn ymddangos yn annormal.
- Cafodd un o bob 21 o unigolion a sgriniwyd yn ystod y flwyddyn eu hatgyfeirio'n uniongyrchol ar gyfer colposgopi gan Sgrinio Serfigol Cymru. O'r rhain, roedd gan 1 o bob 138 o unigolion (llai nag 1%) ganser.

# 3 Data

## 3.1 Cwmpas


**Tabl 1a:** Cwmpas sgrinio serfigol sy'n addas i'r oedran yn ôl grŵp oedran

| Grŵp Oedran | Cymwys | Profwyd o fewn 3.5 blynedd | % Cwmpas o fewn 3.5 blynedd |
|---|---|---|---|
| 25-29 oed | 99,983 | 63,719 | 63.7% |
| 30-34 oed | 105,889 | 74,294 | 70.2% |
| 35-39 oed | 100,709 | 70,731 | 70.2% |
| 40-44 oed | 91,993 | 64,430 | 70.0% |
| 45-49 oed | 94,168 | 64,683 | 68.7% |
| **25-49 oed** | **492,742** | **337,857** | **68.6%** |

| Grŵp Oedran | Cymwys | Profwyd o fewn 5.5 mlynedd | % Cwmpas o fewn 5.5 mlynedd |
|---|---|---|---|
| 50-54 oed | 104,455 | 80,725 | 77.3% |
| 55-59 oed | 102,678 | 71,705 | 69.8% |
| 60-64 oed | 87,532 | 57,345 | 65.5% |
| **50-64 oed** | **294,665** | **209,775** | **71.2%** |

Noder: Yr ystod oedran gymwys ar gyfer sgrinio serfigol yw 25-64 oed. Mae unigolion dros 50 oed yn cael eu gwahodd yn rheolaidd am sgrinio bob pum mlynedd, nid yw cwmpas o fewn 3.5 blynedd yn gymwys yn y grŵp oedran hwn. Mae cwmpas sy'n addas i’r oedran cyfunol ar gyfer 25-64 oed wedi'i gyfrifo fel 69.5%. Gweler yr adran ar ddiffiniad i gael rhagor o fanylion.

**Graff 1a1:** Cwmpas sgrinio serfigol sy'n addas i'r oedran yn ôl grŵp oedran





**Tabl 1b:** Cwmpas Sgrinio Serfigol (25-64 oed) yn ôl bwrdd iechyd preswyl

| | 25 - 49 | | |
|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd** | **Cymwys** | **Profwyd o fewn 3.5 blynedd** | **%Cwmpas o fewn 3.5 blynedd** |
| BIP Aneurin Bevan | 90,627 | 63,229 | 69.8% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 96,748 | 67,668 | 69.9% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 84,765 | 56,158 | 66.3% |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 67,909 | 45,949 | 67.7% |
| BIP Hywel Dda | 51,128 | 33,802 | 66.1% |
| BI Addysgu Powys | 16,498 | 11,930 | 72.3% |
| BI Bae Abertawe | 58,331 | 39,197 | 67.2% |
| BI anhysbys | 26,736 | 19,924 | 74.5% |
| **CYFANSWM** | **492,742** | **337,857** | **68.6%** |

| | 50 - 64 | | |
|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd** | **Cymwys** | **Profwyd o fewn 5.5 mlynedd** | **%Cwmpas o fewn 5.5 mlynedd** |
| BIP Aneurin Bevan | 54,870 | 39,597 | 72.2% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 66,141 | 47,200 | 71.4% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 41,110 | 29,383 | 71.5% |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 40,094 | 28,152 | 70.2% |
| BIP Hywel Dda | 37,571 | 26,219 | 69.8% |
| BI Addysgu Powys | 13,736 | 10,052 | 73.2% |
| BI Bae Abertawe | 34,629 | 24,277 | 70.1% |
| BI anhysbys | 6,514 | 4,895 | 75.1% |
| **CYFANSWM** | **294,665** | **209,775** | **71.2%** |

Mae hyn yn dangos y cwmpas a nodwyd o'r unigolion a oedd yn gymwys ar gyfer sgrinio serfigol ar 1 Ebrill 2021, yn ôl y nifer a'r gyfran â phrawf digonol o fewn y 3.5 neu'r 5.5 mlynedd diwethaf.

**Graff 1b:** Cwmpas sgrinio serfigol cyfunol o ran y grŵp oedran targed (unigolion 25-64 oed) yn ôl bwrdd iechyd



## 3.2 Unigolion a wahoddwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd

**Tabl 2:** Unigolion a wahoddwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd

| Bwrdd Iechyd | O dan 25 oed* | 25-49 oed | 50-64 oed | 65 oed a hŷn | Pob Oedran |
|---|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 2,458 | 25,513 | 12,850 | 370 | 41,191 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 2,554 | 27,246 | 14,725 | 394 | 44,919 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 2,710 | 23,484 | 9,115 | 255 | 35,564 |
| BIP Cwm Taf | 1,879 | 19,185 | 9,187 | 251 | 30,502 |
| BIP Hywel Dda | 1,455 | 14,162 | 8,450 | 246 | 24,313 |
| BI Addysgu Powys | 386 | 4,379 | 2,859 | 79 | 7,703 |
| BI Bae Abertawe | 1,734 | 16,187 | 8,019 | 199 | 26,139 |
| BI anhysbys | 820 | 7,479 | 1,566 | 31 | 9,896 |
| **Cymru Gyfan** | **13,996** | **137,635** | **66,771** | **1,825** | **220,227** |

*Gwahoddir unigolion cymwys am eu prawf sgrinio cyntaf rhwng 24 oed ac wyth mis a 24 oed a naw mis. Mae hyn yn sicrhau y byddant wedi cael y cyfle i fynd i gael eu sgrinio erbyn eu pen-blwydd yn 25 oed. Yn ogystal, bydd rhai unigolion o dan 25 oed yn cael eu gwahodd oherwydd canfyddiadau achlysurol o newidiadau celloedd, sydd wedi ei gwneud yn ofynnol cael profion sgrinio dilynol.

## 3.3 Unigolion a brofwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd


**Tabl 3:** Unigolion a sgriniwyd yn ôl grŵp oedran a bwrdd iechyd

| Bwrdd Iechyd | O dan 25 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | 65 oed a hŷn | Pob Oedran |
|---|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 256 | 15,780 | 6,662 | 205 | 22,903 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 203 | 16,914 | 7,688 | 252 | 25,057 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 312 | 14,560 | 4,857 | 183 | 19,912 |
| BIP Cwm Taf | 204 | 11,533 | 4,656 | 149 | 16,542 |
| BIP Hywel Dda | 119 | 8,684 | 4,373 | 164 | 13,340 |
| BI Addysgu Powys | 48 | 3,104 | 1,594 | 47 | 4,793 |
| BI Bae Abertawe | 216 | 9,828 | 4,145 | 133 | 14,322 |
| BI anhysbys | 90 | 5,229 | 811 | 18 | 6,148 |
| **Cymru Gyfan** | **1,448** | **85,632** | **34,786** | **1,151** | **123,017** |

Yn 2020-21 cafodd y data hyn eu cyfrifo'n uniongyrchol o wybodaeth a gymerwyd o'r system galw ac ailalw. Rhoddir diffiniadau manylach yn adran 5 o'r adroddiad hwn.

Yn gyffredinol, mae nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio yn cael ei ddiffinio fel cyfran yr unigolion a wahoddwyd sy'n mynd i gael eu sgrinio o fewn cyfnod diffiniedig yn dilyn gwahoddiad. Nid oes modd mesur nifer y gwahoddiadau sgrinio serfigol yn union oherwydd gall rhai profion a gynhelir yn y flwyddyn sgrinio (1 Ebrill tan 31 Mawrth) ddeillio o wahoddiadau sydd naill ai wedi'u rhoi yn y flwyddyn sgrinio flaenorol, neu eu derbyn yn y flwyddyn ganlynol. Ar hyn o bryd nid oes safon ar gyfer ‘nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio’ yng Nghymru a Lloegr ac felly mae'r cwmpas wedi'i gyflwyno.

**Graff 3:** Nifer yr unigolion (25-64 oed) a wahoddwyd a'u sgrinio bob blwyddyn




Mae'r gostyngiad yn nifer yr unigolion a wahoddwyd yn ystod 2017-18 yn sgil y newidiadau oedran ac amlder a weithredwyd ym mis Medi 2013 lle cafodd yr oedran ar gyfer gwahoddiad sgrinio cyntaf ei godi o 20 i 25 oed a chafodd amlder y gwahoddiad ar gyfer unigolion 50-64 oed ei newid o dair blynedd i bum mlynedd. Mae'r cynnydd a welwyd yn 2018-19 yn cynnwys unigolion 25 oed sy'n cael eu gwahodd am y tro cyntaf, a'r unigolion 50 oed neu hŷn yn 2013 sydd bellach yn cael eu gwahodd yn ôl ar ôl pum mlynedd. Roedd y gostyngiad yn nifer yr unigolion a wahoddwyd ac a brofwyd yn ystod 2020-21 oherwydd effaith pandemig Covid-19.


## 3.4 Amseroedd dychwelyd canlyniadau sampl sgrinio yn ôl bwrdd iechyd

Safon Iechyd Cyhoeddus Cymru yw bod 95% o unigolion yn cael eu canlyniadau o fewn pedair wythnos (28 diwrnod calendr) i gymryd y sampl sgrinio.

**Tabl 4:** Yr amser o'r dyddiad y cymerwyd y sampl hyd at roi llythyr canlyniad, yn ôl Bwrdd Iechyd

| Bwrdd Iechyd | Llai na 2 wythnos neu'n hafal i hynny | >2 wythnos hyd at 4 wythnos | >4 wythnos hyd at 6 wythnos | >6 wythnos | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 15,148 | 4,898 | 838 | 105 | 20,989 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 19,409 | 3,179 | 691 | 69 | 23,348 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 13,452 | 3,723 | 697 | 98 | 17,970 |
| BIP Cwm Taf | 10,899 | 3,621 | 648 | 86 | 15,254 |
| BIP Hywel Dda | 8,609 | 3,158 | 515 | 70 | 12,352 |
| BI Addysgu Powys | 2,908 | 1,286 | 162 | 30 | 4,386 |
| BI Bae Abertawe | 9,820 | 2,957 | 453 | 54 | 13,284 |
| BI anhysbys | 4,472 | 1,242 | 227 | 37 | 5,978 |
| **Cymru Gyfan** | **84,717** | **24,064** | **4,231** | **549** | **113,561** |
| **Cronnus %** | **74.6%** | **95.8%** | **99.5%** | **100.0%** | **100.0%** |

**Graff 4:** Yr amser o'r dyddiad y cafodd y sampl ei chymryd i roi llythyr canlyniad, yn ôl Bwrdd Iechyd




Ledled Cymru cafodd 74.6% o ganlyniadau eu rhoi o fewn pythefnos i gymryd y prawf (ystod 66.3% i 83.1%); mae hyn yn gynnydd o gymharu â 47.5% yn 2019-20).

Cafodd 95.8% o ganlyniadau eu rhoi o fewn pedair wythnos (safon o 95%) o gymharu â 96.3% yn 2019-20.

## 3.5 Samplau a gofnodwyd yn ôl labordy sgrinio serfigol

**Tabl 5a:** Nifer y samplau sgrinio serfigol a gofnodwyd yn ôl ffynhonnell y prawf

| | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | 110,363 | 1,519 | 5,187 | 435 | 117,504 |

**Tabl 5b1:** Nifer y samplau sgrinio serfigol a gofnodwyd yn ôl bwrdd iechyd preswyl a ffynhonnell y prawf

| Bwrdd Iechyd | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 20,401 | 623 | 808 | 17 | 21,849 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 22,631 | 226 | 757 | 1 | 23,615 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 18,159 | 149 | 638 | 110 | 19,056 |
| BIP Cwm Taf | 14,384 | 187 | 1,072 | 98 | 15,741 |
| BIP Hywel Dda | 11,543 | 170 | 992 | 2 | 12,707 |
| BI Addysgu Powys | 4,164 | 8 | 111 | 9 | 4,292 |
| BIP Bae Abertawe | 12,851 | 41 | 561 | 173 | 13,626 |
| BI anhysbys | 6,230 | 115 | 248 | 25 | 6,618 |
| **Cymru Gyfan** | **110,363** | **1,519** | **5,187** | **435** | **117,504** |

**Tabl 5b2:** Canran y samplau sgrinio serfigol a gymerwyd ym mhob bwrdd iechyd preswyl yn ôl ffynhonnell y prawf

| Bwrdd Iechyd | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi |
|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 93.4 | 2.9 | 3.7 | 0.1 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 95.8 | 1.0 | 3.2 | 0.0 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 95.3 | 0.8 | 3.3 | 0.6 |
| BIP Cwm Taf | 91.4 | 1.2 | 6.8 | 0.6 |
| BIP Hywel Dda | 90.8 | 1.3 | 7.8 | 0.0 |
| BI Addysgu Powys | 97.0 | 0.2 | 2.6 | 0.2 |
| BIP Bae Abertawe | 94.3 | 0.3 | 4.1 | 1.3 |
| BI anhysbys | 94.1 | 1.7 | 3.7 | 0.4 |
| **Cymru Gyfan %** | **93.9** | **1.3** | **4.4** | **0.4** |

O'r 117,504 o samplau a gofnodwyd, nid oedd angen prawf sytoleg mewn 99,717 o samplau oherwydd nad oedd HPV risg uchel wedi'i ganfod. Cafodd profion sytoleg eu cynnal ar 17,787 o samplau.

**Tabl 5c1:** Samplau sytoleg annigonol a gofnodwyd yn ôl labordy

| | | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | Cyfanswm y Samplau | 15,947 | 352 | 1,370 | 118 | 17,787 |
| | Nifer annigonol | 304 | 10 | 49 | 4 | 367 |
| | % annigonol | **1.9** | **2.8** | **3.6** | **3.4** | **2.1** |

O'r 99,717 o samplau lle nad oedd prawf sytoleg yn ofynnol, roedd 145 o samplau wedi'u cofnodi fel 'canlyniad hrHPV heb fod ar gael/annibynadwy (HPVU)'. Os ychwanegir y canlyniadau hyn at y canlyniadau 'sytoleg annigonol', byddai hyn yn rhoi cyfradd 'annigonol' gyfunol gyffredinol o 0.4% o'r holl samplau a gafwyd gan y labordy.

**Tabl 5c2:** Nifer yr hrHPV Positif gyda samplau sytoleg gradd uchel a gofnodwyd

| | | Meddyg Teulu | Clinigau Iechyd Rhywiol Integredig | Ysbyty'r GIG | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **Cymru Gyfan** | Nifer Digonol | 15,643 | 342 | 1,321 | 114 | 17,420 |
| | Nifer gradd uchel | 1,015 | 22 | 191 | 15 | 1,243 |
| | % gradd uchel | **6.5** | **6.4** | **14.5** | **13.2** | **7.1** |

Mae gradd uchel yn cynnwys canlyniadau a gofnodwyd fel dyscariosis gradd uchel (cymedrol neu ddifrifol), dyscariosis gradd uchel (ymholiad carsinoma cennog ymledol), ymholiad neoplasia chwarennol o'r math endoserfigol neu ymholiad neoplasia chwarennol nad yw'n darddiad ceg y groth.  Caiff y gyfran ei chyfrifo o'r holl ganlyniadau profion sgrinio serfigol.

**Tabl 5d:** Nifer y samplau digonol a gofnodwyd yn ôl canlyniad y prawf a grŵp oedran

| **Canlyniad** | **25-49 oed** | **50-64 oed** | **Pob Oedran** |
| --- | --- | --- | --- |
| Negatif | 10,004 | 2,356 | 12,630 |
| Newid Ffiniol mewn celloedd cennog | 1,413 | 246 | 1,700 |
| Newid Ffiniol mewn celloedd endoserfigol | 43 | 1 | 44 |
| Dyscariosis Gradd Isel | 1,520 | 249 | 1,803 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (Cymedrol) | 333 | 35 | 373 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (Difrifol) | 713 | 87 | 810 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (?carsinoma cennog ymledol) | 18 | 10 | 28 |
| ?Neoplasia chwarennol o'r math endoserfigol | 26 | 5 | 32 |
| ?Neoplasia chwarennol o darddiad nad yw'n geg y groth | 0 | 0 | 0 |
| Dim sytoleg | 68,117 | 30,076 | 99,717 |
| **Cymru Gyfan** | **82,187** | **33,065** | **117,137** |

Mae pob oedran yn cynnwys cyfranogwyr y tu allan i'r ystod oedran gymwys.

**Tabl 5e:** Nifer a chanlyniad y samplau digonol a nodwyd

| Canlyniad | HPV Risg Uchel wedi'i ganfod | HPV Risg Uchel heb ei ganfod | HPV heb fod ar gael / annibynadwy | CYFANSWM |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Negatif | 12,629 | 0 | 0 | 12,630 |
| Newid Ffiniol mewn celloedd cennog | 1,700 | 0 | 0 | 1,700 |
| Newid Ffiniol mewn celloedd endoserfigol | 44 | 0 | 0 | 44 |
| Dyscariosis Gradd Isel | 1,803 | 0 | 0 | 1,803 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (Cymedrol) | 373 | 0 | 0 | 373 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (Difrifol) | 810 | 0 | 0 | 810 |
| Dyscariosis Gradd Uchel (?carsinoma cennog ymledol) | 28 | 0 | 0 | 28 |
| ?Neoplasia chwarennol o'r math endoserfigol | 32 | 0 | 0 | 32 |
| ?Neoplasia chwarennol o darddiad nad yw'n geg y groth | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dim sytoleg | 0 | 99,572 | 145 | 99,717 |
| **Cymru Gyfan** | **17,419** | **99,572** | **145** | **117,137** |

Mae un sampl sytoleg negatif na chafodd ei phrofi am HPV heb ei chynnwys yn y tabl uchod.

**Tabl 5f:** Canlyniad i unigolion a atgyfeiriwyd ar gyfer colposgopi yn ystod mis Ebrill 2019-Mawrth 2020 ar ôl canlyniad sytoleg annigonol, negatif neu radd isel

| Canlyniad | CYMRU GYFAN | Canran |
| --- | --- | --- |
| Canser Ceg y Groth | 6 | 0.2 |
| CGIN | 7 | 0.2 |
| CIN Gradd Uchel | 798 | 21.9 |
| CIN1 | 850 | 23.3 |
| Dim Annormaledd wedi'i Ganfod | 774 | 21.3 |
| Biopsi Annigonol | 39 | 1.1 |
| Dim Biopsi wedi'i Gymryd | 1,168 | 32.1 |
| Canser nad yw'n Ganser Ceg y Groth | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **3,642** | **100.0** |

**Tabl 5g:** Canlyniad i unigolion a atgyfeiriwyd yn ystod mis Ebrill 2019-Mawrth 2020 ar ôl canlyniad sytoleg gradd uchel

| Canlyniad | CYMRU GYFAN | Canran |
| --- | --- | --- |
| Canser Ceg y Groth | 54 | 3.4 |
| CGIN | 65 | 4.1 |
| CIN Gradd Uchel | 1,230 | 77.6 |
| CIN1 | 125 | 7.9 |
| Dim Annormaledd wedi'i Ganfod | 82 | 5.2 |
| Biopsi Annigonol | 1 | 0.1 |
| Dim Biopsi wedi'i Gymryd | 29 | 1.8 |
| Canser nad yw'n Ganser Ceg y Groth | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **1,586** | **100.0** |

**Tabl 5h:** Canlyniad i unigolion a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol ar gyfer colposgopi yn ystod mis Ebrill 2019-Mawrth 2020

| | Gwerth Rhagfynegol Positif (PPV)% | Gwerth Rhagfynegol Annormal (APV)% | Gwerth Atgyfeirio (RV) |
|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | 85.1 | 22.6 | 2.7 |

Gweler adran 5 am ddiffiniadau o PPV, APV ac RV.

**Tabl 5i:** Amseroedd dychwelyd canlyniadau ar gyfer labordy sgrinio serfigol, o'r dyddiad y derbyniwyd y sampl, hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd y canlyniad am y tro cyntaf

| | Llai na 2 wythnos neu'n hafal i hynny | >2 wythnos hyd at 4 wythnos | >4 wythnos hyd at 6 wythnos | >6 wythnos | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | 100,545 | 13,706 | 3,005 | 248 | 117,504 |
| **Cronnus %** | 85.6% | 97.2% | 99.8% | 100.0% | 100.0% |

## 3.6 Gweithgarwch colposgopi

**Tabl 6a:** Nifer yr atgyfeiriadau colposgopi yn ôl ffynhonnell yr atgyfeiriad a'r clinig colposgopi

| Clinig Colposgopi | Atgyfeirio Uniongyrchol SSC | Atgyfeirio Arall | CYFANS WM | % Atgyfeirio Uniongyrchol SSC | % Atgyfeirio Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberhonddu | 52 | 4 | 56 | 92.9% | 7.1% |
| Bronglais | 105 | 91 | 196 | 53.6% | 46.4% |
| Caerdydd a'r Fro | 973 | 763 | 1,736 | 56.0% | 44.0% |
| Glan Clwyd | 448 | 27 | 475 | 94.3% | 5.7% |
| Castell-nedd Port Talbot | 599 | 187 | 786 | 76.2% | 23.8% |
| Nevill Hall | 247 | 102 | 349 | 70.8% | 29.2% |
| Y Drenewydd | 119 | 33 | 152 | 78.3% | 21.7% |
| Tywysog Siarl | 245 | 581 | 826 | 29.7% | 70.3% |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 203 | 348 | 551 | 36.8% | 63.2% |
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 905 | 295 | 1,200 | 75.4% | 24.6% |
| Singleton | 420 | 314 | 734 | 57.2% | 42.8% |
| Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru | 311 | 269 | 580 | 53.6% | 46.4% |
| Llwynhelyg | 128 | 159 | 287 | 44.6% | 55.4% |
| Wrecsam | 337 | 87 | 424 | 79.5% | 20.5% |
| Ysbyty Gwynedd | 364 | 156 | 520 | 70.0% | 30.0% |
| Ysbyty Ystrad Fawr | 360 | 81 | 441 | 81.6% | 18.4% |
| **Cymru Gyfan** | 5,816 | 3,497 | 9,313 | 62.5% | 37.5% |

Mae'r atgyfeiriadau eraill nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol gan Sgrinio Serfigol Cymru yn gymysgedd o unigolion a atgyfeirir o ofal sylfaenol neu eilaidd sydd â symptomau neu ymddangosiad annormal o ran ceg y groth, unigolion sy'n symud i Gymru gyda newidiadau diweddar i'r celloedd ar sytoleg neu'r rhai lle roedd anawsterau o ran cael sampl mewn gofal sylfaenol.

**Tabl 6b:** Nifer y cleifion newydd a welwyd mewn clinigau colposgopi yn ôl canlyniad prawf atgyfeirio

| Clinig Colposgopi | Gradd isel | Gradd uchel | Sytoleg Negatif HPV Positif | Dim prawf ceg y groth annormal | Cyfanswm |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Aberhonddu | 18 | 10 | 6 | 2 | 36 |
| Bronglais | 46 | 21 | 14 | 59 | 140 |
| Caerdydd a'r Fro | 431 | 123 | 122 | 535 | 1,211 |
| Glan Clwyd | 182 | 73 | 66 | 13 | 334 |
| Castell-nedd Port Talbot | 286 | 107 | 93 | 110 | 596 |
| Nevill Hall | 77 | 33 | 26 | 71 | 207 |
| Y Drenewydd | 70 | 18 | 16 | 26 | 130 |
| Tywysog Siarl | 147 | 59 | 58 | 381 | 645 |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 118 | 46 | 47 | 225 | 436 |
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 326 | 129 | 93 | 237 | 785 |
| Singleton | 201 | 68 | 59 | 245 | 573 |
| Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru | 180 | 66 | 40 | 146 | 432 |
| Llwynhelyg | 78 | 26 | 26 | 108 | 238 |
| Wrecsam | 107 | 46 | 33 | 73 | 259 |
| Ysbyty Gwynedd | 201 | 80 | 44 | 62 | 387 |
| Ysbyty Ystrad Fawr | 91 | 37 | 33 | 52 | 213 |
| **Cymru Gyfan** | 2,559 | 942 | 776 | 2,345 | 6,622 |
| **%** | 38.6% | 14.2% | 11.7% | 35.4% | 100.0% |

Mae atgyfeiriadau gradd isel yn cynnwys newid ffiniol mewn celloedd cennog a dyscariosis gradd isel.


Mae atgyfeiriadau gradd uchel yn cynnwys newidiadau ffiniol mewn celloedd endoserfigol, dyscariosis gradd uchel (cymedrol a difrifol), dyscariosis gradd uchel (ymholiad carsinoma cennog ymledol), ymholiad neoplasia chwarennol o'r math endoserfigol ac ymholiad neoplasia chwarennol nad yw'n darddiad ceg y groth.

Mae Tabl 6b yn dangos atgyfeiriadau ar gyfer colposgopi yn dilyn canlyniad sytoleg negatif (normal). Mae'r unigolion hyn yn cael eu hatgyfeirio naill ai oherwydd hrHPV parhaus yn eu sampl, neu oherwydd clefyd gradd uchel blaenorol (‘prawf gwella’) a hrHPV presennol. Yn sgil parhad hrHPV neu eu hanes blaenorol, maent yn wynebu risg uwch o glefyd gradd uchel.


**Tabl 6c:** Amseroedd aros yn ôl bwrdd iechyd a'r math o atgyfeirio

| | Pob atgyfeirio | | | | Dyscariosis gradd uchel neu waeth | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **Bwrdd Iechyd** | **<8 wythnos** | **8 wythnos neu fwy** | **CYFANSWM** | **% o fewn 8 wythnos** | **<4 wythnos** | **4 wythnos neu fwy** | **CYFANSWM** | **% o fewn 4 wythnos** |
| BIP Aneurin Bevan | 1,477 | 147 | 1,624 | 90.9 | 234 | 27 | 261 | 89.7 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 1,054 | 169 | 1,223 | 86.2 | 206 | 29 | 235 | 87.7 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 1,479 | 86 | 1,565 | 94.5 | 149 | 1 | 150 | 99.3 |
| BIP Cwm Taf | 1,299 | 21 | 1,320 | 98.4 | 125 | 3 | 128 | 97.7 |
| BIP Hywel Dda | 886 | 136 | 1,022 | 86.7 | 135 | 5 | 140 | 96.4 |
| BI Addysgu Powys | 175 | 22 | 197 | 88.8 | 31 | 1 | 32 | 96.9 |
| BIP Bae Abertawe | 1,373 | 30 | 1,403 | 97.9 | 208 | 12 | 220 | 94.5 |
| **Cymru Gyfan** | **7,743** | **611** | **8,354** | **92.7** | **1,088** | **78** | **1,166** | **93.3** |
| **%** | **92.7** | **7.3** | **100.0** | **-** | **93.3** | **6.7** | **100.0** | **-** |

**Graff 6c1:** Canran yr holl atgyfeiriadau newydd y cynigiwyd apwyntiad iddynt o fewn wyth wythnos yn ôl bwrdd iechyd (ac eithrio oedi a achoswyd gan gleifion)



**Graff 6c2:** Canran yr atgyfeiriadau gradd uchel y cynigiwyd apwyntiad iddynt o fewn pedair wythnos yn ôl bwrdd iechyd (ac eithrio oedi a achoswyd gan gleifion)




Mae'r tablau a'r graffiau uchod yn dangos yr amser a gymerwyd o dderbyn atgyfeiriad gan fwrdd iechyd i'r apwyntiad cyntaf a gynigiwyd gan y bwrdd iechyd, ac eithrio oedi a achoswyd gan gleifion. cafodd 93.3% o gleifion a gafodd eu hatgyfeirio gyda chanlyniad o ddyscariosis gradd uchel neu waeth gynnig apwyntiad o fewn pedair

wythnos (safon o 90%). cafodd 92.7% o'r holl atgyfeiriadau gynnig apwyntiad o fewn wyth wythnos (safon o 90%).

**Tabl 6d:** Cyfanswm yr apwyntiadau colposgopi yr aed iddynt yn ôl math yr ymweliad a'r bwrdd iechyd

| Bwrdd Iechyd | Asesiad Colposgopig | Dewis a thrin | Triniaeth a gynlluniwyd | Triniaeth Ddilynol | Heb ei Nodi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 1,332 | 163 | 213 | 373 | 5 | 2,086 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 1,276 | 63 | 375 | 238 | 44 | 1,996 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 1,616 | 51 | 154 | 163 | 1 | 1,985 |
| BIP Cwm Taf | 1,194 | 73 | 311 | 486 | 23 | 2,087 |
| BIP Hywel Dda | 861 | 24 | 265 | 764 | 14 | 1,928 |
| BI Addysgu Powys | 169 | 9 | 34 | 70 | 1 | 283 |
| BIP Bae Abertawe | 1,292 | 18 | 352 | 587 | 9 | 2,258 |
| **Cymru Gyfan** | **7,740** | **401** | **1,704** | **2,681** | **97** | **12,623** |
| **%** | **61.3%** | **3.2%** | **13.5%** | **21.2%** | **0.8%** | **100.0%** |

Cofnodwyd 12,623 o ymweliadau a fynychwyd yn ystod 2020-21. Roedd mwyafrif y rhain ar gyfer 'asesiad colposgopig'. Cafodd 401 o ymweliadau a gofnodwyd fel 'dewis a thrin' (lle mae triniaeth yn cael ei chyflawni yn ystod ymweliad cyntaf â cholposgopi), er bod amrywiaeth yn yr ymarfer hwn ledled Cymru.

**Tabl 6e:** Cleifion newydd a welwyd yn ôl y math o atgyfeiriad a chanlyniad gwaethaf histoleg

| Math o Atgyfeiriad | Canser | CGIN | CIN gradd uchel | CIN1 | Dim annormaledd wedi'i ganfod | Biopsi annigonol | Anhysbys | Dim biopsi wedi'i gymryd | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atgyfeirio Uniongyrchol SSC | 30 | 39 | 1,277 | 834 | 678 | 60 | 19 | 1,198 | 4,135 |
| Atgyfeirio Arall | 25 | 2 | 75 | 180 | 481 | 37 | 14 | 1,673 | 2,487 |
| **Cymru Gyfan** | **55** | **41** | **1,352** | **1,014** | **1,159** | **97** | **33** | **2,871** | **6,622** |

**Tabl 6f:** Cleifion newydd a welwyd yn ôl bwrdd iechyd a chanlyniad gwaethaf histoleg

| Bwrdd Iechyd | Canser | CGIN | CIN gradd uchel | CIN1 | Dim annormaledd wedi'i ganfod | Biopsi annigonol | Anhysbys | Dim biopsi wedi'i gymryd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 6 | 13 | 256 | 120 | 230 | 9 | 6 | 565 | 1,205 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 7 | 7 | 333 | 258 | 150 | 16 | 13 | 196 | 980 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 3 | 4 | 161 | 105 | 210 | 8 | 3 | 717 | 1,211 |
| BIP Cwm Taf | 16 | 5 | 149 | 134 | 308 | 11 | 5 | 453 | 1,081 |
| BIP Hywel Dda | 9 | 7 | 171 | 162 | 134 | 38 | 2 | 287 | 810 |
| BI Addysgu Powys | 2 | 1 | 32 | 34 | 29 | 2 | 2 | 64 | 166 |
| BIP Bae Abertawe | 12 | 4 | 250 | 201 | 98 | 13 | 2 | 589 | 1,169 |
| **Cymru Gyfan** | **55** | **41** | **1,352** | **1,014** | **1,159** | **97** | **33** | **2,871** | **6,622** |
| **%** | **0.8%** | **0.6%** | **20.4%** | **15.3%** | **17.5%** | **1.5%** | **0.5%** | **43.4%** | **100.0%** |

# 4 Archwiliad o ganser ceg y groth yng Nghymru 2019-20

Mae cronfa ddata Archwiliad Sgrinio Serfigol Cymru o Ganser Ceg y Groth (CSWACC) yn gronfa ddata bwrpasol y gellir ei gweithredu ar y we, a ddefnyddir gan SSC yn unig. Mae pob diagnosis o ganser ceg y groth ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru ar adeg y diagnosis yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata CSWACC.

Ceir gwybodaeth am ddiagnosis o ganser ceg y groth o:

- Adroddiadau patholeg
- Llythyrau ysbytai/meddygon teulu
- Adroddiadau marwolaeth
- Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU)

Mae'r demograffeg ar gyfer pob unigolyn yn cael ei lanlwytho'n awtomatig. Yna mae pob achos yn cael ei adolygu gan Arweinydd Clinigol SSC sy'n gwirio bod yr achos yn ganser ceg y groth, a bod y data canlynol yn gyflawn, lle y bo'n bosibl:

- Math o ganser histolegol
- Pennu camau canser
- Triniaeth gyffredinol
- Statws canfod drwy sgrinio
    - Os canfyddir nad yw wedi'i sgrinio (yn unol â diffiniad NHSCSP), yna rhoddir categoreiddio pellach (e.e. erioed wedi'i sgrinio, sgrinio wedi dod i ben)


Mae Arweinydd Clinigol SSC yn sicrhau y gofynnir am adolygiadau a'u cwblhau ar gyfer samplau sgrinio cymwys, llwybr sgrinio (gwahoddiadau a chanlyniadau a anfonwyd) ac unrhyw gyfnodau colposgopi dros y cyfnod o 10 mlynedd cyn cael diagnosis. Mae'r adolygiad ar gyfer addysg a gwella'r rhaglen sgrinio yn bennaf, ond caiff unigolion eu hysbysu am yr adolygiad ac maent yn gallu cael unrhyw ganlyniadau adolygu wedi'u datgelu, ar gais.

Ym mis Rhagfyr 2022, roedd 125 o ganserau ceg y groth ar gronfa ddata CSWACC ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020. Gall nifer terfynol y canserau ar gyfer y cyfnod hwn gynyddu oherwydd gall data cofrestrfa canser gael eu hoedi, a hefyd oherwydd gall rhai unigolion gael diagnosis 'y tu allan i'r ardal'.

## 4.1 Oedran diagnosis yr holl ganserau ceg y groth a nodwyd yng Nghymru (a gafodd eu canfod drwy sgrinio a heb sgrinio)

Yr ystod oedran ar adeg y diagnosis oedd 23 oed i 84 oed. Roedd y canolrif yn y grŵp oedran 45-49 oed, gydag uchafbwynt yn y grwpiau oedran 35-39 oed (Graff 7a).


**Graff 7a:** Nifer y Canserau Ceg y Groth yn ôl Band Oedran




## 4.2 Math o ganser

O'r 125 o ganserau a gafodd ddiagnosis, roedd 88 (70.4%) yn rhai carsinoma celloedd cennog, 27 (21.6%) yn adenocarsinoma, pedwar (3.2%) yn rhai carsinoma adenogennog a phedwar (3.2%) yn 'eraill'. Roedd y grŵp 'eraill' yn cynnwys niwroendocrin, celloedd bach ac achosion nad oedd biopsi wedi'i gymryd i gadarnhau diagnosis histolegol. Roedd dau achos nad oeddent wedi cael eu categoreiddio i'r math o ganser.

**Graff 7b:** Nifer y canserau ceg y groth yn ôl math ac oedran pan gafwyd y Diagnosis





## 4.3 Cam y canser

O'r 125 o achosion, roedd 28 (22.4%) ar gam 1A, 29 (23.2%) ar gam 1B, 27 (21.6%) ar gam 2, 22 (17.6%) ar gam 3 a 17 (13.6%) ar gam 4. Mewn dau achos ni chafodd camau canser eu pennu, ac efallai fod hyn oherwydd bod y diagnosis dim ond wedi'i gofnodi ar dystysgrif marwolaeth.

Yn sgil y niferoedd bach, dangosir y canserau y rhoddwyd diagnosis ohonynt rhwng 2011 a 2020 yn ôl oedran a cham (graff 7c). Mae hwn yn dangos bod yr uchafbwynt ar gyfer cam 1A yn y grŵp oedran 30-34 oed, ar gyfer 1B mae hyn yn y grŵp oedran 35-39 oed ac ar gyfer canserau cam diweddarach mae'r uchafbwynt yn digwydd yn y grŵp oedran hŷn.

**Graff 7c:** Nifer y canserau ceg y groth a gafodd ddiagnosis rhwng 2011 a 2020 yn ôl cam ac oedran pan gafwyd y diagnosis





## 4.4 Statws canfod drwy sgrinio

Y diffiniad o ganser wedi'i ganfod drwy sgrinio yw canser a ganfuwyd yn dilyn atgyfeiriad yn sgil prawf sgrinio annormal. Gall hyn gynnwys achosion lle nad yw unigolion wedi mynd i gael eu sgrinio am lawer o flynyddoedd, ar yr amod nad oeddent wedi mynd i gael eu sgrinio yn sgil symptomau. Er mai nod y rhaglen sgrinio yw lleihau nifer yr achosion o ganser ceg y groth ymledol, weithiau mae canser yn cael ei ganfod gan y prawf sgrinio.

Canserau nad ydynt wedi'u canfod drwy sgrinio yw'r rhai lle mae'r unigolyn yn cyflwyno oherwydd symptomau, gan arwain at eu diagnosis o ganser yn hytrach nag o ganlyniad i brawf sgrinio. Gall canserau heb eu canfod drwy sgrinio ddigwydd mewn unigolion â hanes sgrinio llawn, gyda chyfnodau hir o beidio â mynychu, neu heb hanes sgrinio.


O'r 125 o ganserau, cafodd 43 (34.4%) eu canfod drwy sgrinio a chafodd 80 (64.0%) eu canfod heb sgrinio. Roedd dau ganser nad oeddent wedi'u dosbarthu i statws wedi'i ganfod drwy sgrinio. Roedd yr holl ganserau a ganfuwyd drwy sgrinio ar gam cynnar (1A ac 1B), ac roedd canserau a gafodd eu canfod heb sgrinio wedi'u canfod ar gam diweddarach yn bennaf.

**Graff 7d:** Nifer y canserau ceg y groth yn ôl cam a statws canfod drwy sgrinio




Ar draws yr ystod oedran, roedd canserau mewn unigolion iau yn fwy tebygol o fod wedi'u canfod drwy sgrinio, ac roedd y rhai mewn unigolion hŷn yn rhai heb eu canfod drwy sgrinio yn bennaf. Mewn unigolion dros 65 oed, roedd llawer nad oeddent wedi'u sgrinio erioed, neu nid oeddent wedi'u sgrinio am lawer o flynyddoedd. Mae'r grŵp olaf hwn yn cynnwys y rhai nad oeddent wedi cael eu sgrinio ers blynyddoedd lawer cyn 65 oed (pan wnaethant adael y rhaglen), ond hefyd y rhai a oedd wedi'u sgrinio'n llawn hyd at 65 oed ond a gafodd ddiagnosis dros 70 oed.

**Graff 7e:** Nifer y canserau ceg y groth yn ôl oedran a statws canfod drwy sgrinio




Lle mae canser wedi'i ganfod heb sgrinio, mae hanes sgrinio'r unigolyn yn cael ei gategoreiddio yn unol â'r rhestr isod (gan ddefnyddio diffiniadau NHSCSP): -

1 - Dim cofnod o sgrinio serfigol

2 - Sgriniwyd mwy na 5.5 mlynedd cyn y diagnosis (mae hyn yn cynnwys unigolion dros 65 oed sydd efallai wedi cael eu sgrinio'n llawn hyd at yr oedran hwnnw)


3 - Sgrinio a gofnodwyd dim ond fel rhai negatif o fewn y chwe mis blaenorol - 5.5 mlynedd (gall gynnwys canlyniad sgrinio annigonol achlysurol os yw'n cael ei ailadrodd yn gyflym fel un negatif)

4 - Sgrinio/sgriniadau heb fod yn negatif, gan gynnwys sgrinio/sgriniadau annigonol, a argymhellodd ailadrodd (o fewn y chwe mis - 5.5 mlynedd blaenorol)

5 - Triniaeth flaenorol ar gyfer neoplasia ceg y groth (CIN) (o fewn y chwe mis - 5.5 mlynedd blaenorol) yn dilyn sgrinio annormal a argymhellodd atgyfeiriad

6 - Sgrinio annormal yn y chwe mis - 5.5 mlynedd blaenorol a argymhellodd atgyfeiriad i golposgopi gydag oedi dilynol mewn diagnosis

**Graff 7f:** Canserau heb eu canfod drwy sgrinio yn ôl cam a hanes sgrinio




Ceir patrwm rhwng y categori canfod heb sgrinio ar gyfer yr achosion hyn a cham y canser. Po uchaf yw'r cam, y mwyaf tebygol ydynt o fod yn unigolion sydd naill ai heb gofnod o brawf sgrinio serfigol, neu bu dros 5.5 mlynedd ers eu sgrinio diwethaf.

# 5 Terminoleg

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y derminoleg a'r cyfrifiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**Cymhwystra**
Menywod a phobl â cheg y groth cymwys oedd y rhai sy'n byw yng Nghymru.

**Canran y rhai a gafodd eu sgrinio**
Noder nad oedd modd mesur canran yr unigolion a ddaeth i gael eu sgrinio yn erbyn y ganran a wahoddwyd yn union oherwydd gall rhai profion a gynhelir yn y flwyddyn sgrinio (1 Ebrill tan 31 Mawrth) ddeillio o wahoddiadau 'ymylol', sydd naill ai wedi'u rhoi yn y flwyddyn sgrinio flaenorol, neu eu derbyn yn y flwyddyn ganlynol.

**Cwmpas**
Ni ellir cymharu ffigurau cwmpas yn uniongyrchol o un flwyddyn i'r llall.

- Cyn 1997-98, roedd yr holl unigolion a ddosbarthwyd fel 'galw yn ôl wedi dod i ben' gan y rhaglen (am resymau meddygol, oedran neu resymau eraill) wedi eu heithrio o'r enwadur a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cwmpas
- Yn 1998/99 newidiodd y diffiniad i eithrio dim ond yr unigolion hynny â "galw yn ôl wedi dod i ben am resymau clinigol" (dim ceg y groth)
- Ers 2001-02, mae'r ffigurau cwmpas yn cynnwys dim ond yr unigolion hynny a gafodd brawf digonol yn y 3.5 neu bum mlynedd diwethaf yn y rhifiadur.

**Cwmpas sy'n Addas i'r Oedran**
Mae ffigurau cwmpas sy'n addas i'r oedran yn cynnwys unigolion 25-49 oed a gafodd brawf digonol yn y 3.5 mlynedd ddiwethaf ac unigolion 50-64 oed a gafodd brawf digonol yn y 5.5 mlynedd diwethaf yn y rhifiadur.

**Bwrdd Iechyd**
Mae hwn yn fwrdd iechyd preswyl. Lle na ellir canfod bwrdd iechyd, bydd unigolion yn ymddangos yn yr adroddiad o dan y teitl bwrdd iechyd anhysbys.

**Gwahoddwyd**
O 2016/17 ymlaen, mae nifer yr unigolion a wahoddwyd gan Sgrinio Serfigol Cymru, wedi'i gyfrifyddu drwy ddadansoddi'r data a dynnwyd o'r system galw ac ailalw (system NHAIS/Exeter) – gwahoddiadau a roddwyd gan raglen Cymru ar gyfer unigolion yn ystod y cyfnod amser.

**Profwyd**
O 2016/17 ymlaen, mae nifer yr unigolion a brofwyd gan Sgrinio Serfigol Cymru wedi'i gyfrifyddu drwy ddadansoddi'r data a dynnwyd o'r system galw ac ailalw – profion sydd wedi'u cymryd yng Nghymru yn ystod y cyfnod amser.

**Atgyfeirio uniongyrchol**
Lle mae canlyniad sampl sgrinio yn dangos bod angen i unigolion gael archwiliad colposgopig, gwneir yr atgyfeiriad gan Sgrinio Serfigol Cymru, yn hytrach na'r cymerwr sampl.

**Sytoleg**
Archwilio celloedd unigol o dan ficrosgop, i chwilio am newidiadau celloedd.

**Histoleg**
Archwilio meinwe'r corff (e.e. biopsïau) o dan ficrosgop.

**Colposgopi**
Archwilio ceg y groth gan ddefnyddio archwiliad gweledol gydag asid asetig a chwyddo.

**Gwerth Rhagfynegol Positif**
Y gwerth rhagfynegol positif (PPV) yw cyfran y rhai y credir bod ganddynt newidiadau gradd uchel i'r celloedd ar sytoleg, sydd wedyn yn mynd ymlaen i gael annormaledd gradd uchel wedi'i brofi.

Mae PPV sytoleg yn cyfateb barn sytoleg gradd uchel â chanlyniad histoleg. Mae'n cyfrifo cyfran yr achosion lle mae biopsi digonol, yn dilyn prawf sgrinio a gofnodir fel dyscariosis gradd uchel (cymedrol) neu waeth, yn cynhyrchu diagnosis histolegol o CIN2 neu waeth. Mae hyn yn eithrio unigolion a gafodd eu hatgyfeirio am golposgopi yn dilyn canlyniad ymholiad chwarennog neoplasia nad oedd yn un ceg y groth.

Mae canserau nad ydynt yn ganser ceg y groth wedi eu heithrio o gyfrifiadau PPV. O 2012-13 mae'r diffiniad ar gyfer cyfrifo PPV wedi newid, mae'r enwadur bellach yn cynnwys – colposgopi dim annormaledd wedi'i ganfod (NAD) a heb gymryd biopsi.

Mae Colposgopi PPV yn cyfateb barn colposgopi gradd uchel â chanlyniad histoleg.

**Gwerth Rhagfynegol Annormal**
Mae'r Gwerth Rhagfynegol Annormal (APV) yn cyfrifo canran y samplau a gofnodwyd fel newidiadau ffiniol neu ddyscariosis gradd isel a arweiniodd at atgyfeirio a diagnosis histolegol dilynol o CIN2 neu waeth. Ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn, mae hyn hefyd yn cynnwys samplau y cofnodwyd eu bod yn dangos ‘newid ffiniol mewn celloedd endoserfigol’.

**Gwerth Atgyfeirio**
Mae'r gwerth atgyfeirio (RV), yn cael ei ddiffinio fel nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd i gael colposgopi fesul canfod un CIN2 neu waeth o ran canlyniad

histoleg. Mae hyn yn eithrio unigolion a gafodd eu hatgyfeirio am golposgopi yn dilyn canlyniad prawf annigonol neu ymholiad neoplasia chwarennol (nad yw'n geg y groth).

**Mynychder**

Nifer yr achosion newydd y flwyddyn o ganser ceg y groth ymledol

**Afiachedd**

Y niwed a achosir gan ganser ceg y groth a thrwy drin canser ceg y groth, yn gorfforol ac yn seicolegol

**Marwolaethau**

Marwolaethau a achoswyd gan ganser ceg y groth ymledol.

# 6 Tîm Cynhyrchu

Cyflogir y tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod.

| | |
|---|---|
| Lisa Henry | Pennaeth Rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru |
| Dr Katie Walbeoff | Arweinydd Clinigol Sgrinio Serfigol Cymru |
| Kate Lilly | Uwch-arbenigwr Gwybodeg a Data |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Guy Stevens | Dirprwy Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Dr Graham Brown | Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus |

| | |
|---|---|
| Rhys George | Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg) |

Ni chafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi fel ystadegau swyddogol